| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **21 IONAWR 2010** |
| **TEITL** | **POLISI GAMBLO** |
| **PWRPAS** | **ADOLYGU A MABWYSIADU POLISI'R CYNGOR** |
| **ARGYMHELLIAD** | **BOD Y CYNGOR YN DERBYN YR ADRODDIAD A MABWYSIADU'R POLISI AM GYFNOD O HYD AT 3 BLYNEDD.** |
| **AWDUR** | **ALED DAVIES, PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **CYNGHORYDD J.R. JONES** |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Mae gofyn i'r Cyngor, yn unol â Deddf Gamblo 2005, i adolygu ei Bolisi Gamblo o leiaf pob 3 blynedd. Mabwysiadwyd y Polisi gwreiddiol gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007. Gwahoddir y Cyngor felly i adolygu'r Polisi a mabwysiadu'r Polisi atodol ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

## 2.0 YMGYNGHORI

2.1 Ymgynghorwyd yn helaeth ar y Polisi presennol yn ystod Hydref 2009. Gwahoddwyd sylwadau gan holl aelodau'r Cyngor, Cynghorau Cymuned, cyrff yn y maes gamblo, sefydliadau cyhoeddus a.y.y.b. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau a arweiniodd at newid yn y Polisi, ond argymhellir peth addasiadau i adlewyrchu mân newidiadau.

## 3.0 NEWIDIADAU

3.1 Mae'r Polisi newydd yn adlewyrchu'r ffaith bod:

- Y ddeddf nawr yn weithredol, felly mae unrhyw gyfeiriad at drefniadau trosiannol wedi eu diddymu.
- Derbyniwyd canllawiau newydd oddi wrth y Comisiwn Gamblo ym mis Mai 2009 ar lotriau bychain ( Pwynt 4.8)
- Mae rheolau diwygiedig nawr mewn bodolaeth o ran gwerth y gwobrau gellid eu hennill. (Atodiad E)

3.2 Ystyriwyd y Polisi gan y Pwyllgor Trwyddedu yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2009, pryd y penderfynwyd cyflwyno'r Polisi i ystyriaeth y Cyngor ar ei fabwysiadu.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad a mabwysiadu'r Polisi am gyfnod o hyd at 3 blynedd.